**BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS CONWY A SIR DDINBYCH**

Cofnodion cyfarfod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych a gynhaliwyd yn Arcadia Room, Venue Cymru, Llandudno LL30 1BB, Dydd Iau, 30 Tachwedd 2017 am 1.30 pm.

**YN BRESENNOL:**
Bethan Jones (Cadeirydd) – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Cynghorydd Gareth Jones – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cynghorydd Hugh Evans - Cyngor Sir Ddinbych
Dr Evan Moore - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Lesley Powell (dirprwy i Helen Wilkinson) – Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych
Mohamed Mehmet – Cyngor Sir Ddinbych
Shân Morris (dirprwy i Simon Smith) – Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Sian Beck – Heddlu Gogledd Cymru
Sioned Rees – Llywodraeth Cymru
Sian Williams – Cyfoeth Naturiol Cymru
Susan McTaggert (dirprwy i Stephen Hughes – Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
Teresa Owen (dirprwy i Rebecca Masters) – Iechyd y Cyhoedd

**SWYDDOGION:**
Hannah Edwards - Swyddog Datblygu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (CBS Conwy)
Nicola Kneale - Rheolwr Cynllunio Strategol (Cyngor Sir Ddinbych)
Fran Lewis - Rheolwr Perfformiad a Gwelliant Corfforaethol (CBS Conwy)
Megan Vickery – Swyddog Ymgysylltu (BIPBC Canolog)

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Sally Baxter – Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Strategaeth Iechyd (BIPBC)
Ken Cook – Pennaeth Ynni Adnewyddadwy (Llywodraeth Cymru)
Sharon Walker – Gweinyddwr Pwyllgor (CS Ddinbych)

**ARSYLWYR:**
Cynghorwyr Barry Mellor, Graham Timms ac Emrys Wynne (CS Ddinbych)

## 1 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Iwan Davies (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Stephen Hughes (Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru), Andy Jones (Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol), Wendy Jones (Cefnogaeth Cymunedol a Gwirfoddol Conwy), Rebecca Masters (Iechyd y Cyhoedd Cymru), Simon Smith (Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru), a Helen Wilkinson (Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych).

## 2 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych a gynhaliwyd ar 28 Medi 2017 i'w cymeradwyo.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid cymeradwyo cofnodion cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych a gynhaliwyd ar 28 Medi 2017.*

## 3 MATERION YN CODI

Dim.

## 4 BYW'N IACHACH, CADW'N IACH

Cyflwynodd Sally Baxter, Cyfarwyddwr Cynorthwyol y Strategaeth Iechyd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, yr adroddiad er mwyn rhannu gwybodaeth ar y blaenoriaethau drafft o fewn Rhaglen Strategaeth Gorfforaethol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Byw'n Iachach, Cadw'n Iach, ac i geisio adborth gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Roedd cyfeiriad strategol hir dymor arfaethedig y Bwrdd Iechyd ar gyfer y deng mlynedd nesaf wedi ei gyflwyno i gyfarfod y Bwrdd Iechyd a gynhaliwyd ar 20 Hydref 2017. Mae'r ymgynghoriad yn cau ym mis Rhagfyr 2017 a byddai'r strategaeth yn cael ei gorffen yn y Flwyddyn Newydd.

Roedd fersiwn gryno o'r ddogfen ymgysylltu â'r gymuned wedi ei chynnwys gyda'r papurau a gylchredwyd ar gyfer y cyfarfod oedd yn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer tair blynedd gyntaf y strategaeth. Wedi mireinio pellach yn dilyn adborth o'r broses ymgysylltu gyfredol, byddai'r rhain yn arwain cynllun tair blynedd y Bwrdd Iechyd a fyddai'n cael ei ddatblygu ar gyfer 2018 – 21.

Byddai gwaith pellach gyda phartneriaid yn cael ei geisio er mwyn sicrhau bod cysondeb gyda, ond dim dyblygiad o waith y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n cael ei symud ymlaen drwy'r Cynlluniau Lles.

Roedd y Rhaglen wedi ei chefnogi drwy ymgysylltu parhau â chynrychiolwyr sefydliadau partner, rhanddeiliaid, grwpiau cymunedol, pobl gyda phrofiad o wasanaethau a gofalwyr.

Yn ystod 2017, cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau penodol i roi gwybod am faterion penodol o fewn y rhaglen strategaeth a sgyrsiau mwy cyffredinol gydag amrywiaeth ehangach o grwpiau, oedd wedi cynnwys ymgysylltiad staff.

Byddai cyfnod pellach o ymgysylltu yn cael ei gynnal er mwyn casglu adborth ar y blaenoriaethau cyffredinol sy'n dod i'r amlwg.

Cadarnhawyd y byddai'r dangosyddion yn cael eu defnyddio i werthuso effaith y prosesau a'r camau gweithredu yn erbyn yr amcanion.

***PENDERFYNWYD*** *bod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych yn ystyried blaenoriaethau drafft yr adroddiad Byw'n Iachach, Cadw'n Iach*

**5 CYNGOR SIR DDINBYCH – CYNLLUN CORFFORAETHOL**

Cyflwynodd Prif Weithredwr Cyngor Sir Ddinbych Gynllun Corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2017 - 2022 er gwybodaeth.

Cymeradwyodd Cyngor Sir Ddinbych ei Gynllun Corfforaethol yn Hydref 2017.

Nodwyd pum blaenoriaeth ar gyfer cyfnod 2017 - 2022:

a. Tai – Mae pawb yn cael eu cefnogi i fyw mewn cartrefi sy'n bodloni eu hanghenion
b. Clymu Cymunedau - Mae cymunedau wedi'u cysylltu ac mae ganddynt fynediad at nwyddau a gwasanaethau lleol, ar-lein a thrwy gysylltiadau cludiant da
c. Cymunedau gwydn - mae'r Cyngor yn gweithio gyda phobl a chymunedau i gynyddu annibyniaeth a chadernid
d. Amgylchedd - mae'r amgylchedd yn ddeniadol ac wedi ei warchod, gan gefnogi lles a ffyniant economaidd
e. Pobl ifanc - man lle bydd pobl iau am fyw a gweithio ynddo, a bod ganddynt y sgiliau i wneud hynny

Y maen prawf ar gyfer beth sy'n gwneud Blaenoriaeth oedd "rhywbeth newydd a fydd yn gwneud gwahaniaeth arwyddocaol i'n trigolion". Byddai'r holl weithgarwch arall yn cael ei gynnwys ym Mhortffolio Corfforaethol y Cyngor.

Roedd y Blaenoriaethau a amlinellwyd yn y Cynllun Corfforaethol hwn wedi eu creu drwy broses drylwyr a chlir o gasglu tystiolaeth a dadansoddi (Asesiad Lles) ac ymgynghoriad dwys gyda'r cymunedau (Sgwrs y Sir).

Unwaith roedd y Blaenoriaethau wedi eu drafftio, cynhaliwyd cyfres o weithdai gyda staff Cyngor Sir Ddinbych a sefydliadau partner perthnasol er mwyn creu syniadau ynglŷn â sut i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau.

Crewyd a datblygwyd y syniadau gyda grŵp trawsbleidiol o Aelodau a swyddogion hefyd, er mwyn dod i gonsensws bod yr addewidion yr oedd Dinbych yn ymrwymo iddynt yn ddigon uchelgeisiol a realistig.

Byddai gwaith Sgwrs y Sir yn parhau drwy fywyd y Cynllun Corfforaethol. Fel byddai pob Blaenoriaeth yn cael ei datblygu ymhellach ac yn cael chyflawni, byddai Strategaeth Gyfathrebu'r Cynllun Corfforaethol yn cael ei defnyddio i gadw ffocws ar y cynllun.

Yn ystod y drafodaeth:

- Cadarnhawyd bod popeth o fewn y Cynllun Corfforaethol wedi ei fapio yng Nghynllun Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, ar wahân i Tai.
- Cytunodd y Bwrdd bod synergedd eglur rhwng cynlluniau'r Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

- Roedd dau Fwrdd Corfforaethol i gael eu sefydlu er mwyn llywio'r Cynllun Corfforaethol.
- Byddai'r chwe Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gweithio gyda'i gilydd i rannu blaenoriaethau yn barod ar gyfer y cais twf rhanbarthol. Cytunwyd dosbarthu gwybodaeth cais twf i holl Aelodau'r Bwrdd er gwybodaeth.

Er mwyn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei basio ymlaen i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ynglŷn â'r Cais Twf, cadarnhaodd Prif Weithredwr Cyngor Sir Ddinbych bod cyfarfod Grŵp Prif Weithredwr ac Uwch Swyddogion yn cael ei gynnal ac y gellid cyflwyno trosolwg o'r cyfarfod hwnnw i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Cytunodd y Cadeirydd i gynnwys diweddariad yn y gweithdy sy'n digwydd ar ddiwedd Ionawr 2018.

***PENDERFYNWYD**:*

*(i) bod y Bwrdd yn cydnabod Cynllun Corfforaethol Cyngor Sir Ddinbych.*
*(ii) gwahodd cynrychiolydd o Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i fynychu gweithdy Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn Ionawr 2018, er mwyn rhoi trosolwg o'r Cais Twf Rhanbarthol i'r Bwrdd.*

## 6 GOBLYGIADAU BREXIT

Rhoddodd Ken Cook, Pennaeth Ynni Adnewyddadwy Llywodraeth Cymru adroddiad llafar ynglŷn â goblygiadau Brexit.

Pwysleisiodd Mr Cook bod tri maes i Brexit:
- Beth sydd gennym nawr a beth sy'n mewn peryg
- Beth fydd yn digwydd yn 2019, a
- Sgwrs a fyddai'n cychwyn gyda chyhoeddi rhai cynigion gan Lywodraeth Cymru cyn datblygiad economaidd Nadolig.

Roedd Cymru yn elwa o oddeutu £680 miliwn o gyllid Ewropeaidd bob blwyddyn, oedd yn cael ei ddosbarthu gan Lywodraeth Cymru.

O ran beth fyddai'n digwydd ar 29 Mawrth 2019, doedd dim ymateb pendant i hynny eto. Roedd y Canghellor wedi gwarantu unrhyw gyllid cyn gadael yr UE. Felly, byddai unrhyw brosiectau a gymeradwywyd hyd at y dyddiad hwnnw yn sicr o dderbyn cyllid.

Roedd ansicrwydd pellach am y cyfnod trosglwyddo na fydd, yn ôl Llywodraeth y DU, yn hirach na 2 flynedd. Roedd Prif Weinidog Cymru wedi ysgrifennu at Lywodraeth y DU ar ddechrau 2017 er mwyn gosod chwech egwyddor i'w sicrhau ar gyfer y dyfodol.

O safbwynt y cyfnod wedi Brexit, roedd strategaeth gan Lywodraeth y DU. Pe byddai dull gweithredu heriol yn cael ei gymryd byddai hyn yn mynd i'r afael ag anawsterau strwythurol o fewn Cymru. Mae Llywodraeth Cymru am gyhoeddi Papur cyn y Nadolig yn nodi'r egwyddorion wrth symud ymlaen.

Gofynnwyd am ddosbarthu canllaw gwarantu'r trysorlys i Aelodau’r Bwrdd er gwybodaeth.

Cadarnhaodd Ken Cook hefyd y byddai prosiectau yn parhau i gael eu cyflwyno ar gyfer cyllid a gofynnodd y Cadeirydd i Aelodau’r Bwrdd edrych am flaenoriaethau oedd angen cyllid cyn Brexit.

Diolchodd y Bwrdd i Mr Cook am ei adroddiad llafar llawn gwybodaeth.

***PENDERFYNWYD*** *bod:*

*(i) y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cydnabod adroddiad goblygiadau Brexit.*

*(ii) swyddogion Llywodraeth Cymru yn cylchredeg canllawiau’r trysorlys i Aelodau’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus*

*(iii) y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cymryd camau dilynol gyda Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru pan fydd sefyllfa Brexit yn dod yn fwy eglur*

**Ar y pwynt hwn (3.10 p.m.) cafwyd egwyl o 15 munud.**

**Ailddechreuodd y cyfarfod am 3.25 p.m.**

## 7 TRAFODAETH AR YR HERIAU PRESENNOL O RAN YR ARWEINYDDIAETH A’R RISGIAU I’R SIROEDD

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad llafar ynglŷn â Heriau Presennol o ran yr Arweinyddiaeth a'r Risgiau i'r Siroedd.

Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai holl Gynlluniau Corfforaethol y partneriaid yn cael eu rhaglennu i becynnau Rhaglenni Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus drwy gydol cyfarfodydd y dyfodol er gwybodaeth.

Cafwyd trafodaeth bellach a chodwyd y pwyntiau canlynol:

- Sut gellid mynd i’r afael â'r heriau o ran yr arweinyddiaeth a pha gymorth fyddai ei angen gan yr holl bartneriaid, gan gynnwys beth y dylid ei ychwanegu at becynnau Rhaglenni’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn y dyfodol fel cymorth.
- Gan bod cymaint o doriadau o fewn sefydliadau cyhoeddus, sut gellid ymgorffori gweithio yn fwy doeth a edrych hyd yn oed ar y posibilrwydd o sefydliadau trydydd parti yn cymryd rhai elfennau o’r gwaith (y gallent wneud cais am arian ei gyfer).
- Rhannu rhagdybiaethau cyllido'r dyfodol rhwng pob sefydliad a'r posibilrwydd o weithio mwy doeth rhwng yr holl sefydliadau cyhoeddus er mwyn sicrhau nad oes dyblygu gwaith.
- Byddai angen i bob partner ymrwymo er mwyn darparu Cynllun Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus er mwyn sicrhau bod y Cynllun yn cael ei ddarparu’n gadarnhaol.
- Darpariaeth barhaol gwasanaethau.  Gellid trafod hyn mewn mwy o fanylder yn ystod y gweithdy sydd i'w gynnal ym mis Ionawr 2018.

- Gofynnwyd am gynnwys eitem sefydlog o fewn pecynnau Rhaglenni'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn y dyfodol er mwyn dangos y sail resymegol dros rai penderfyniadau anodd ac i ddatblygu gwaith tîm.

***PENDERFYNWYD** bod y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn cydnabod yr heriau presennol o ran arweinyddiaeth a'r peryglon i'r siroedd.*

## 8 CYNLLUN LLES DRAFFT

Cyflwynodd Rheolwr Perfformiad a Gwelliant Corfforaethol (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) yr adroddiad llafar ar y diweddariad ar y Cynllun Lles drafft.

Cadarnhawyd bod y Cynllun yn cael ei ymgynghori arno ar hyn o bryd. Roedd gwahoddiad agored wedi ei gylchredeg i bob Grŵp cymunedol yn cynnig bod swyddog yn mynychu er mwyn trafod y Cynllun Lles mewn mwy o fanylder os oedd angen.

Cyflwynodd NRW, CBSC, a BCU gynllun lles drafft y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i'w cymunedau eu hunain ac roedd wedi ei groesawu.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion am eu gwaith ar y Cynllun.

***PENDERFYNWYD** bod Bwrdd y gwasanaethau Cyhoeddus yn cydnabod ac yn cymeradwyo'r Cynllun Lles Drafft.*

## 9 CADARNHAD O AMSERLEN Y CYNLLUN LLES

Cyflwynodd Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol (Cyngor Sir Ddinbych) adroddiad llafar ar Amserlen y Cynllun Lles.

Fel y nodwyd, ar hyn o bryd roedd y Cynllun yn cael ei ymgynghori arno hyd at 22 Ionawr 2018, ac wedi hynny byddai angen i holl sefydliadau Aelod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gytuno arno.

Byddai'r Cynllun wedyn yn cael ei ail-gyflwyno i gyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn Ebrill 2018 er mwyn ei gymeradwyo.

***PENDERFYNWYD** bod Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus yn cydnabod ac yn cymeradwyo amserlen y Cynllun Lles.*

## 10 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol a nodwyd yr ychwanegiadau canlynol:

- Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru – trosolwg Cais Twf Rhanbarthol
- Heriau Presennol i'r Arweinyddiaeth a Pheryglon i'r Siroedd.
- Cynlluniau Corfforaethol gan amrywiol bartneriaid ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol – Heddlu Gogledd Cymru yn bresennol yn y cyfarfod nesaf fis Ebrill 2018.

## 11 YMCHWILIAD CYNULLIAD CYMRU

Er gwybodaeth, cyflwynwyd yr ymateb gan y Bwrddd Gwasanaethau Cyhoeddus i Aelodau.

***Penderfynwyd** bod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cymeradwyo'r ymateb i'w gyflwyno i Gynulliad Cymru, yn ddibynnol ar gynnwys y data ardal gymunedol o dan gwestiwn 3.*

## 12 UNRHYW FUSNES ARALL

Gofynnwyd i bobl 'tagio' Aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus pan fyddai rhywun yn trydar neu'n anfon hysbysiadau ar y cyfryngau cymdeithasol, fel na fyddai neb yn methu'r hysbysiadau.

**Daeth y cyfarfod i ben am 4.00pm**